## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (MAN I'R GORLLEWIN O GYFRONNYDD, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, i'r gorllewin o Gyfronnydd, Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, at ddibenion gwaith graeanu'r gaeaf neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r U2406 sy'n arwain at Henllan hyd at ei chyffordd â'r C2124 sy'n arwain at Langynyw.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A458 tua'r dwyrain i Gylchfan Raven, y Trallwng, yr A490 tua'r gogledd a'r A495 tua'r de-orllewin i ailymuno â'r A458 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Chwefror 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (o 19:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) o 6 Chwefror hyd 10 Chwefror 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (WEST OF CYFRONYDD, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required to undertake works on or near the A458 trunk road to the west of Cyfronydd, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, for winter gritting purposes or for the works, from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from its junction with the U2406 leading to Henllan to its junction with the C2124 leading to Llangyniew.

The alternative route for westbound vehicles is via the eastbound A458 to Raven Roundabout, Welshpool, northbound A490 and south-westbound A495 to rejoin the eastbound A458: vice versa for eastbound traffic.

The Order comes into force on 6 February 2023. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 6 – 10 February 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government